



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

# Gwasanaethau Gofalwyr Gogledd Cymru

## Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Les

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi effaith debygol y cynnig ar les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y rhanbarth, Cymru a'r byd.

### Disgrifiad Byr:

Gwasanaethau a chefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Ngogledd Cymru.

Un o lifau gwaith y gofalwyr fel y blaenoriaethwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:

- Edrych trwy lygad gofalwyr a dylunio gwasanaethau cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at gadw gofalwyr yn iach
- Canolbwyntio ar beth sy'n bwysig i'r gofalwr a beth fyddai'n eu helpu nhw i fod yn ofalwr, a pharhau bod yn ofalwr ac i fyw eu bywydau y ffordd maent yn dymuno gwneud

**Dyddiad Cwblhau:** Fersiwn: 2 28 Mehefin 2018

**Cwblhawyd gan:** Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru

### Rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori

Bydd y strategaeth yn effeithio ar yr holl nodweddion gwarchoddedig; mae'n ymagwedd poblogaeth gyfan tuag at ddarparu gofynion gofalwyr sydd o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (SSWBA).

### Polisiau a allai effeithio'r cais

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a Chynllun Gweithredu
- Blaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr, Tachwedd 2017
- Mwy na geiriau.... Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019

**Gwasanaeth cyfrifol:** Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol


**Ardaloedd yr effeithir arnynt:** Gogledd Cymru

## Crynodeb a chasgliad yr asesiad o'r effaith

Cyn i ni edrych yn fanwl ar gyfraniad ac effaith y cynnig, mae'n bwysig ystyried sut mae'r cynnig yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni weithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."

## Crynodeb o'r effaith

### Nodau Lles



Rhanbarth ffyniannus:

Cadarnhaol a  
Negyddol

Rhanbarth cryf:

Cadarnhaol

Rhanbarth iachach:

Cadarnhaol

Rhanbarth mwy cyfartal:

Cadarnhaol a  
Negyddol

Rhanbarth o gymunedau cydlynus:

Cadarnhaol

Rhanbarth o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus:

Cadarnhaol

Rhanbarth â chyfrifoldeb bydol:

Cadarnhaol

### Prif gasgliadau

Mae'r Strategaeth Gofalwyr:

- Yn dweud wrthym ble yr ydym wedi'i gyrraedd yng Ngogledd Cymru a'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr
- Yn amlinellu ein blaenoriaethau o ran sut i gyrraedd yna

- Yn darparu eglurder ar gyllido a chynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y dyfodol
- Yn ystyried sut y gallem ychwanegu gwerth trwy gydweithio'n rhanbarthol yn ogystal â chydweithredol

Mae'r strategaeth hefyd yn rhoi ffocws ar:

- Diwallu anghenion gofalwyr unigol yn y ffordd orau
- Sicrhau ein bod yn 'meddwl am ofalwyr' a bod gofalwyr yn cael eu hystyried y munud mae'r person yn dechrau derbyn gofal
- Darparu gwasanaethau sy'n gyson

Os gweithredir blaenoriaethau a chynlluniau gweithredu'r strategaeth, dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles gofalwyr, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi datblygiad cymunedau cydlynol yng Ngogledd Cymru.

Gall effeithiau negyddol posibl ddeillio, yn enwedig o ddewisiadau anodd ynghylch ble i flaenoriaethu buddsoddiad a allai roi rhai grwpiau o dan anfantais o'u cymharu ag eraill. Mae effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl hefyd o'r ffordd y byddwn yn comisiynu, caffael a defnyddio a datblygu gwasanaethau yn y rhanbarth i ddiwallu anghenion gofal, lles a chymorth gofalwyr.

Mae'r asesiad o effaith wedi tynnu sylw at rai o effeithiau posibl y strategaeth gofalwyr ac rydym yn argymhell bod yr effeithiau'n parhau i gael eu hasesu wrth i benderfyniadau strategol a gweithredol pellach gael eu gwneud ynghylch sut i weithredu'r cynllun gan Grŵp Strategol Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCSG), y Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCOG), Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru (NWYCOG) a Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru (NWCRG).

Er nad yw gofalwyr a gofalwyr ifanc yn cael eu hadnabod yn ffurfiol fel rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, gellir cael effaith anghymesur ar ofalwyr o ganlyniad i'w rôl ofalu ac mewn sawl achos maent yn wynebu anfanteision economaidd a chymdeithasol sylweddol. Efallai fod gofalwyr yn cael eu trin yn annheg oherwydd eu cysylltiad â'r person y maent yn gofalu amdano. I ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, gall hyn effeithio ar eu datblygiad a'u cyfleoedd bywyd eu hunain.

Gall gofalwyr fod â nodweddion gwarchoddedig ac mae Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru wedi nodi data o ran oedran a rhyw.

Efallai na fydd rhai materion sy'n effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu nodi gan yr asesiad hwn ond gellid mynd i'r afael â nhw mewn gwasanaethau a ddatblygir ar gyfer gofalwyr.

Rhaid i wasanaethau i ofalwyr fod yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr, gan ystyried gwahanol anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig, a bydd hwn yn ddull parhaus wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol a chwarae rhan allweddol yn natblygiad gwasanaethau. Mae'r cynnig 'gofalwyr'

sy'n rhan o'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â gofalwyr a chlywed eu llais fel bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch y gofalwr.

Y dull a gymerwyd i gwblhau'r Aseiad Effaith Llesiant oedd gofyn i aelodau NWCOG arwain ar ddatblygiad yr aseiad o effaith ac ymgynghori ar ei gynnwys gydag aelodau'r grwpiau eraill.

Bwriad y strategaeth gofalwyr yw dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau. Bydd sut y bydd yn gweithio'n ymarferol yn dod yn gliriach ymhen amser. Roedd yn rhaid i ni ystyried nifer o wahanol senarios i gwblhau'r aseiad o effaith y bydd angen ei adolygu wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn deall effaith y strategaeth ar ofalwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig a sut y gallwn reoli effaith / cael gwared ar negyddion, a pha effaith y bydd hynny'n ei gael ar gyllid.

### Rhanbarth ffyniannus

**Effaith gyffredinol:** Cadarnhaol a negyddol

**Cyfiawnhad dros yr effaith** Mae'r strategaeth gofalwyr yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo'r dull 'meddwl am ofalwyr' ac yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn cyfleoedd addysg, gweithio neu wirfoddoli neu i ddychwelyd i'r gwaith pan fydd eu cyfrifoldebau gofalu wedi dod i ben.

Mae'r strategaeth hefyd yn cael effaith gadarnhaol yn yr ystyr ei bod yn rhoi pwyslais ar safonau cyflogwyr.

Felly mae'r strategaeth yn gweithio tuag at boblogaeth fedrus ac addysgedig a chefnogir gofalwyr i sicrhau gwaith gweddus.

Mae gofalwyr wedi dweud wrthym fod cael mynediad da i wasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn bwysig iddynt, a bod angen ystyried cost darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r gwaith mapio a wnaed i lywio'r strategaeth yn dangos bod y cyllid cyfredol ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yn adlewyrchu ei natur anghynaliadwy gyda darparwyr ddim yn gwybod a fydd ffrydiau cyllid ar gael o un flwyddyn i'r llall.

Bydd modelau penodol o ofal a chefnogaeth yn cael eu datblygu yn y dyfodol i ymateb i'r hyn y mae gofalwyr yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw. Gall y modelau a ddewisir hefyd gael effeithiau cadarnhaol ar gynnydd tuag at gymdeithas carbon isel a datblygu economaidd.

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Gall darparu gwasanaethau yn agosach at adref a gwneud y gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael gan ffrindiau, teulu ac mewn cymunedau lleol fod yn fwy effeithlon a lleihau'r angen i deithio.

Rhaid i asesiad o ofalwr ystyried a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio ac a yw'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, hyfforddiant neu hamdden.

Mae gofalwyr ifanc hefyd yn cael eu hannog a'u cefnogi i gael mynediad at waith, hyfforddiant, addysg, gwirfoddoli neu weithgareddau hamdden, a chynyddu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r holl bartneriaid sy'n ymwneud â dylunio a darparu gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru eisiau sicrhau bod eu sefydliadau'n ymrwymo i'r canlynol:

- Adnabod gofalwyr yn y sefydliad
- Mabwysiadu seilwaith sy'n gyfeillgar i ofalwyr
- Ymrwymo i ddarpariaeth deg ar gyfer gofalwyr
- Rhoi cyfleoedd i glywed llais gofalwyr yn y gweithle

- Caniatáu arferion gweithio hyblyg, lle bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol

### **Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:**

Efallai y bydd effeithiau negyddol ar fodelau gwasanaeth sy'n cefnogi gofalwyr gartref os mai dyma sy'n bwysig iddyn nhw, er enghraifft, gwasanaeth cymorth, gofal amnewid neu wasanaeth eistedd. Gall y modelau hyn hefyd gynyddu'r pellteroedd a deithir gan weithwyr gofal.

Gall gweithio'n rhanbarthol i ddefnyddio pŵer prynu i leihau costau gael effeithiau negyddol ar yr economi os yw'n arwain at gyflogaeth ansicr, â chyflog isel ac yn lleihau gallu darparwyr i fuddsoddi yn eu busnesau. Gall comisiynu contractau cymorth gofalwyr generig ar raddfa fwy ei gwneud hi'n anoddach i ddarparwyr bach, lleol gystadlu yn y farchnad.

### **Camau lliniaru:**

Bydd ystyried yr effeithiau pan fydd mwy o wybodaeth ar gael am fodelau penodol yn helpu i liniaru'r effeithiau.

Mae cynllun gweithredu gofalwyr ifanc yn mynd i'r afael â'r ffaith bod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn colli neu'n torri'n fyr ar gyfartaledd 48 diwrnod o ysgol bob blwyddyn, gan gael effaith negyddol ar gyflawniad a chyrhaeddiad yn y dyfodol.

O ran cefnogaeth i ofalwyr gartref, gellir ystyried defnydd arloesol o anghenion technoleg bob amser fel rhan o'r ateb, e.e. Gellir defnyddio Skype i gynnig rhywfaint o wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth i'r gofalwr.

Wrth gomisiynu gwasanaethau, mae angen ystyried effaith caffael contractau cymorth gofalwyr generig.

## Rhanbarth cryf

### **Effaith gyffredinol** Cadarnhaol

#### **Cyfiawnhad dros yr effaith**

Bydd angen ystyried yr effaith pan fydd mwy yn hysbys am ddatblygiadau gwasanaeth a allai ddeillio o'r strategaeth gofalwyr.

#### **Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:**

Bydd angen i wasanaethau a ddatblygir mewn ymateb i'r strategaeth gofalwyr ystyried sut y gallant leihau gwastraff, aildefnyddio ac ailgylchu. Gellid ystyried hyn fel rhan o'r broses gomisiynu.

Bydd angen i wasanaethau a ddatblygir mewn ymateb i'r strategaeth gofalwyr ystyried sut y gallant leihau'r defnydd o ynni/tanwydd. Gellid ystyried hyn fel rhan o'r broses gomisiynu.

Efallai na fydd effaith uniongyrchol ar ymwybyddiaeth pobl o'r amgylchedd a bioamrywiaeth, ond efallai y bydd prosiectau penodol, er enghraifft, gwella lles gofalwyr drwy wneud y gorau o'r amgylchedd naturiol, yn cael effaith gadarnhaol.

#### **Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:**

Mae datblygu strategaeth ranbarthol yn arwain at fwy o ddefnydd o danwydd oherwydd bod pobl yn teithio i gyfarfodydd.

#### **Camau lliniaru:**

Gellir lleihau'r defnydd o ynni / tanwydd o ddatblygu prosiectau ranbarthol trwy ddefnyddio technoleg i leihau nifer y cyfarfodydd ac annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, rhannu ceir a defnyddio cerbydau tanwydd-ffeithlon i deithio. Efallai y bydd cyfleoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a bioamrywiaeth wrth ddatblygu prosiectau i wella lles gofalwyr, y gellid edrych arnynt ynghyd â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Rhanbarth iachach

**Effaith gyffredinol:** Cadarnhaol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Yn gyffredinol, nod y strategaeth gofalwyr yw gwella iechyd a lles gofalwyr a dylai gael effaith gadarnhaol.

Mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â'r ffaith bod iechyd a lles y person sy'n derbyn gofal hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau lles y gofalwr.

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Nod y strategaeth gofalwyr yw gwella iechyd a lles trwy sicrhau bod anghenion gofalwyr yn cael eu diwallu yn y ffordd orau. Ymdrinnir â hyn trwy asesiadau anghenion gofalwyr.

Hefyd, rhaid i asesiad gofalwr ifanc fod yn gyson â hyrwyddo lles y plentyn.

Dylai darparu cefnogaeth yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' i ofalwyr helpu i gynyddu cyfranogiad mewn cyfleoedd hamdden a ddewisir.

Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod Taliadau Uniongyrchol fel ffordd i ddarparu ffurf wedi'i phersonoli i unigolion gael mynediad at wasanaethau, ac mae'n ystyried bod Taliadau Uniongyrchol yn alluogwr cyd-gynhyrchu wrth gynllunio gofal sy'n rhoi rhyddid i unigolion gynllunio ffyrdd hyblyg ac arloesol i wneud y mwyaf o eu lles.

Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r gefnogaeth hyfforddi sydd ei hangen ar ofalwyr gyda'r sgiliau i gefnogi lles yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

Un o fesurau allweddol y strategaeth gofalwyr yw i weithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill ddangos eu bod yn cymhwyso'r egwyddor gofal cymdeithasol yn eu holl benderfyniadau gofal cymdeithasol.

### Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:

Gall gwasanaethau, cefnogaeth a gweithgareddau a ddarperir i ofalwyr gael effaith negyddol, ac mae angen ystyried hyn wrth ddylunio gwasanaethau.

### Camau lliniaru:

I leihau unrhyw effeithiau negyddol, dylid ystyried effeithiau iechyd penodol y gwasanaethau wrth iddynt gael eu datblygu.



## Rhanbarth mwy cyfartal

**Effaith gyffredinol** Cadarnhaol a negyddol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Mae'r strategaeth gofalwyr yn hyrwyddo gweithwyr proffesiynol i 'feddwl am ofalwyr' ac i gael gwared ar rwystrau i sicrhau bod gofalwyr yn byw eu bywyd yn y ffordd y maent eisiau. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo mynediad cyfartal i wasanaethau cymorth yn ogystal ag eiriolaeth a all helpu i wella llesiant pobl â nodweddion gwarchoddedig. Bydd angen ailedrych ar yr asesiad effaith wrth i wasanaethau i ofalwyr gael eu datblygu yng Ngogledd Cymru.

Y nodweddion gwarchoddedig a ystyrir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- *Ar gyfer y Gymraeg, gweler y rhanbarth o ddiwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu*

Gall y Ddeddf Cydraddoldeb hefyd amddiffyn gofalwyr rhag cael eu trin yn annheg oherwydd eu cysylltiad â'r person yr oeddent yn gofalu amdano, y cyfeirir ato fel 'gwahaniaethu trwy gysylltiad.' Mae hyn yn amddiffyn person rhag cael ei wahaniaethu yn ei erbyn oherwydd nodwedd warchoddedig trydydd parti.

Drwy ddefnyddio'r offeryn sgrinio, fe wnaethom nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol y cynllun ar bob grŵp gwarchoddedig (atodiad 1). Dyma'r meysydd a ystyriwyd:

- A yw'r cynnig yn ymwneud â maes lle mae anghydraddoldebau hysbys?
- I ba raddau yr effeithir ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach?
- Sut byddwch yn gwybod beth yw anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig? Beth am unigolion sydd â nifer o nodweddion gwarchoddedig? A yw'n ymwneud â maes lle mae diffyg ymchwil wedi'i gyhoeddi neu dystiolaeth arall?
- A yw'n ymwneud â maes lle mae'ch sefydliad wedi gosod canlyniadau cydraddoldeb?
- A oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un o'r grwpiau a nodwyd yn manteisio mwy neu llai neu â mwy neu lai o fodlonrwydd?
- Os oes cyfyngiadau neu rwystrau i fynediad, a yw'r rhain yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon, neu a oes potensial ar gyfer lleihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau?

## **Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:**

### *Gwella lles pobl â nodweddion gwarchoddedig*

Nod y cynllun yw gwella lles gofalwyr sydd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth, yn ogystal â chefnogaeth yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i gael gwared ar rwystrau i helpu gofalwyr i wella eu sgiliau, eu sefyllfa ariannol a'u gwytnwch. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r strategaeth yn ymgorffori cynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, ac mae llawer o straeon gofalwyr wedi'u hadrodd gan bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu am bobl hŷn, pobl â chyflyrau iechyd cronig, anabledau corfforol a nam ar y synhwyr, anabledau dysgu, ac anghenion iechyd meddwl. Dyluniwyd y strategaeth o amgylch y 'beth sy'n bwysig' i ofalwyr yng Ngogledd Cymru.

Nododd yr Aseiad Anghenion Poblogaeth fod mwy o ferched yn darparu gofal di-dâl na dynion ar y cyfan: mae 57% o ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn ferched a 42% yn ddynion. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi culhau ychydig ers cyfrifiad 2001 o un pwynt canran oherwydd cynnydd yn nifer y dynion sy'n darparu gofal di-dâl. Mae darpariaeth benodol i gefnogi gofalwyr gwrywaidd ar gael yng Ngogledd Cymru, e.e. trwy grwpiau gofalwyr gwrywaidd.

Oherwydd bod y strategaeth yn cael ei chynhyrchu ar sail ranbarthol, mae'n haws i bobl â nodweddion gwarchoddedig gymryd rhan, a all gael rhai buddion ariannol, osgoi dyblygu ac yn y blaen.

### *Trechu Tlodi*

Mae'r strategaeth wedi nodi buddion cynnig cefnogaeth i ofalwyr i wella eu hamgylchiadau ariannol, megis cynnig cefnogaeth gyda cheisiadau budd-dal, atgyfeirio at gyngor ariannol arbenigol, dyfarnu grantiau bach, gwneud ceisiadau grant ar ran gofalwyr a chefnogi gofalwyr sy'n dymuno gweithio neu dychwelyd i'r gwaith. Yn ogystal â hyn, ac yn bwysig, mae gwasanaethau cymorth gofalwyr yn cynnig cefnogaeth emosiynol a sicrwydd i ofalwyr sy'n bryderus neu'n poeni am eu hamgylchiadau ariannol, neu amgylchiadau'r person sy'n derbyn gofal, e.e. unigolion sy'n aros am aseiad ariannol. Darperir cefnogaeth hefyd i ofalwyr sydd â materion fel pŵer atwrnai parhaol a chostau angladd.

Mae cynllun gweithredu gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc y strategaeth yn mynd i'r afael â'r angen i unigolion allu cyrchu ac ymgymryd â gwaith, hyfforddiant a gwirfoddoli, gan eu cefnogi gyda chyrhaeddiad yn y dyfodol.

## **Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:**

### *Gwella lles pobl â nodweddion gwarchoddedig*

Disgwyliadau uwch yn unol â'r cynnig i ofalwyr yng Ngogledd Cymru, ac ymwybyddiaeth bod gwahaniaethau mewn gwasanaethau rhwng un ardal a'r llall.

Disgwyliadau uwch gan awdurdodau lleol i sicrhau bod cynllun cymorth ar waith yn dilyn asesiad o anghenion.

Gallu'r sector cyhoeddus i ymateb i'r hyn sy'n bwysig i ofalwyr ac i ddarparu eglurder ynghylch pa feysydd datblygu gwasanaeth sydd i'w blaenoriaethu.

Efallai y bydd effeithiau cronnus o ofalu, er enghraifft, ar bobl â nifer o wahanol nodweddion gwarchoddedig, neu wedi'u cyfuno ag anghenion eraill fel tlodi.

*Mynd i'r afael â / lleihau anghydraddoldebau iechyd*

Dim effaith glir ar grwpiau Sipsiwn a Theithwyr (y gwyddys eu bod â chanlyniadau iechyd gwaeth).

*Trechu Tlodi*

Mae modd cael mynediad at fwy o wasanaethau ar-lein – gallai gostyngiad mewn dewisiadau amgen gael effaith anghymesur ar bobl sydd heb fynediad at y rhyngwrwyd oherwydd tlodi neu nodweddion gwarchoddedig.

### **Camau Iliniaru:**

Wrth i wasanaethau gofalwyr gael eu datblygu mae angen i ni siarad â phobl am y manylion. Fodd bynnag, dylai dull rhanbarthol mwy strategol hwyluso gweithio tuag at gynaliadwyedd gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, ac os eir i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau, cysondeb gwasanaethau.

Nododd ymgynghoriad gan Gymdeithas Alzheimer ar Strategaeth Dementia Cymru yr angen am fwy o ymchwil i ddeall effaith dementia yn y gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT).

Mae angen gwaith pellach hefyd i ddeall y baich a'r straen ychwanegol ar ofalwyr a wynebir gan ofalwyr a / neu rwydweithiau teulu ehangach o'r gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) lle mae cefnogi aelodau o'r teulu yn gyfrifoldeb i'r teulu heb gefnogaeth gwasanaethau allanol.

Gan y bydd y grwpiau partneriaeth yn gyfrifol am weithredu ac adolygu'r cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â'r strategaeth, bydd angen i'r rhain sicrhau bod yr egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyfle cyfartal a mynediad at wasanaethau, ffynonellau gwybodaeth, llesiant a gweithgareddau hamdden, ynghyd â chyfranogiad. Mae angen ymrwymo hefyd i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig ynghyd â chydweithio i gyd-gynhyrchu.

Bydd angen i unrhyw adolygiadau o'r cynlluniau gweithredu yn y dyfodol ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl â nodweddion gwarchoddedig.

### **Dogfennau tystiolaeth**

Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru

Ymgynghoriad ar Strategaeth Dementia Cymru - Cymdeithas Alzheimer

Ymgysylltu â phobl o'r gymuned fyddar a thrwm eu clyw – Cymdeithas Alzheimer

## Rhanbarth o gymunedau cydlynus

**Effaith gyffredinol** Cadarnhaol

### Cyfiawnhad dros yr effaith

Dylai'r strategaeth gofawyr gael effaith gadarnhaol ar gydlyniant cymunedol. Bydd yr effaith yn dibynnu ar ba gamau lliniaru a roddwn ar waith yn y cynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â blaenoriaethau'r strategaeth. Efallai y bydd yn newid dros amser wrth i bobl gymryd rhan ac wrth i brosiectau ddatblygu.

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Ar ôl gwrandio ar yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr, mae'r strategaeth yn ystyried bod yna thema sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol gofawyr. Mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwasanaethau cymorth a ddarperir ar hyn o bryd i ofalwyr.

Mae gwasanaethau gofawyr yng Ngogledd Cymru yn y gymuned i raddau helaeth, e.e. grwpiau cymorth cymheiriaid, sesiynau galw heibio, a Gwasanaethau Un Pwynt Mynediad. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn gwneud y mwyaf o'r adnoddau cymunedol sydd ar gael, e.e. llyfrgelloedd, canolfannau hamdden.

Mae gwasanaethau i ofalwyr ifanc hefyd yn rhoi pwyslais ar gynyddu gwytnwch gofawyr ifanc a hwyluso eu hymglymiad mewn gweithgareddau cymunedol, e.e. cynllunio ardaloedd hamdden, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon lleol.

Mae'r cynnig 'gofawyr' sy'n rhan o'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â gofawyr a chlywed eu llais fel bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch y gofawr. Yn ogystal â hyn, rhoddir sylw i eiriolaeth ffurfiol ac anffurfiol. Mae'r cynnig gofawyr hefyd yn disgwyl bod cynnig gweithredol o wasanaethau yn Gymraeg.

Trwy waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru a'i flaenoriaethau, gwneir cysylltiadau â ffrydiau gwaith eraill, e.e. Strategaeth Anabledd Dysgu, Strategaeth y Gweithlu.

### Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:

Mae'r mapio adnoddau yn dweud wrthym fod gwasanaethau gofawyr yng Ngogledd Cymru yn anghyson, a gall hyn achosi problemau lle mae'r gwasanaethau'n wahanol mewn gwahanol gymunedau.

Mae'n bwysig sicrhau bod rhywun yn gwrandio ar lais pob gofawr, nid yn unig y rhai sy'n hapus i gael eu hadnabod fel gofawyr, ond hefyd y rhai nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain yn ofalwyr.

### Camau lliniaru:

Mae'n angenrheidiol ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a chefnogi grwpiau anodd eu cyrraedd i ymgysylltu â ni, gan gynnwys pobl ag un neu fwy

o nodweddion gwarchoddedig. Wrth wneud hynny, mae angen i ni ystyried y rhai nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain yn ofalwyr ac estyn allan at bobl yn eu cymunedau eu hunain. Mae hefyd yn angenrheidiol meddwl am ffyrdd creadigol o ymgysylltu, a deall y bydd gan wahanol ofalwyr wahanol anghenion o ran cynnal y sgwrs am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rhaid i ofalwyr hefyd fod yn ymwybodol o bwrpas ymgysylltu a'r hyn y gallant ddisgwyl i ddod ohono. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig bod y gofalwyr yn cael adborth ac esboniad o'r hyn sydd wedi digwydd yn dilyn eu cyfraniad.

Yr un mor bwysig yw'r sgysiau 'beth sy'n bwysig' sy'n digwydd gyda gofalwyr, boed hynny trwy asesiad anghenion gofalwyr ffurfiol, neu drwy sgwrs anffurfiol. Mae'n bwysig nad yw gweithwyr proffesiynol yn cael eu dal yn y broses o'r asesiad ffurfiol o anghenion gofalwyr, ond eu bod yn rhan o sgwrs sy'n cynnwys egwyddorion arweiniol 'beth sy'n bwysig'. Ar hyn o bryd mae un ardal awdurdod lleol yn dadansoddi gwybodaeth am y rhesymau y mae unigolion yn gwrthod asesiadau gofalwyr. Mae angen i ni hefyd feddwl am sut rydyn ni'n coladu'r wybodaeth o sgysiau 'beth sy'n bwysig' i lywio gwasanaethau.

## Rhanbarth o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus

**Effaith gyffredinol** Cadarnhaol

### **Cyfiawnhad dros yr effaith**

Mae'r Strategaeth Gofalwyr yn anelu at wella gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr yn y Gymraeg.

### **Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:**

Mae'r mapio adnoddau wedi cynnwys coladu gwybodaeth am anghenion gofalwyr am wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cefnogi'r gofyniad i wneud 'cynnig gweithredol' o wasanaethau iaith Gymraeg. Mae angen ystyried hyn ymhellach wrth ddatblygu gwasanaethau.

Nododd yr ymgynghoriad ar yr Aseiad Anghenion Poblogaeth gyfleoedd i ddefnyddio diwylliant a threftadaeth i gefnogi llesiant, er enghraifft, trwy bresgripsiynu cymdeithasol. Dylai canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr eu helpu i gael mynediad at y diwylliant a threftadaeth a ddewisant.

### **Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:**

Os na allwn recriwtio digon o staff sy'n siarad Cymraeg, gallai ein gwasanaethau gael effaith negyddol ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun gwasanaethau cymorth a ddarperir i ofalwyr.

Mae'r mapio adnoddau wedi nodi bod llawer o wasanaethau ar gael yn ddwyieithog, ond nid yw'n eglur a yw cynnig gweithredol yn cael ei wneud neu a oes angen i bobl wneud cais am wasanaeth yn Gymraeg.

### **Camau Iliniaru:**

Cysylltiadau i'w gwneud gyda'r strategaeth gweithlu ranbarthol a'r prosiect 'Mwy na Geiriau'.

Mae angen gwaith pellach fel rhan o'r mapio adnoddau i nodi pa wasanaethau sy'n gwneud cynnig gweithredol o ddarpariaeth Gymraeg.

## Rhanbarth â chyfrifoldeb bydol

### Effaith gyffredinol Cadarnhaol

**Cyfiawnhad dros yr effaith** Mae manteision o gydweithio fel rhanbarth i ysgrifennu'r strategaeth gofalwyr. Mae angen gwneud yn siŵr ein bod yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd ac yn cymryd y gwahaniaethau i ystyriaeth wrth lunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol yn hytrach na strwythurau rhanbarthol. Mae'r cynnig gofalwyr yn gynnig rhanbarthol gyda chomisiynu lleol.

### Canlyniadau cadarnhaol a nodwyd:

Bydd comisiynu da gyda ffocws ar gynnwys rhanddeiliaid a bod yn glir ynghylch gwerth cymdeithasol y buddsoddiad yn helpu darparwyr i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Rhaid i ni fod yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gefnogi mentrau cymdeithasol.

Mae'r strategaeth gofalwyr wedi'i halinio â materion hawliau dynol a all effeithio ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau fel hawliau plant a phobl hŷn. Gall sicrhau cefnogaeth i bobl sy'n agored i niwed helpu i gynnal hawliau pobl, megis cefnogaeth i aros gartref a hawl i fywyd teuluol.

Dyluniwyd y strategaeth trwy ddull cyd-gynhyrchu, gan sicrhau bod lleisiau gofalwyr a lleisiau rhanddeiliaid eraill yn cael eu clywed. Mae'r strategaeth hefyd yn mynd i'r afael â gwasanaethau eirioli ffurfiol ac anffurfiol.

Dylai strategaeth y gofalwyr helpu i lywio darpariaeth arall ac integreiddio strategaethau a chydweithio yn well i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

### Nodi canlyniadau negyddol anfwriadol:

Gallai gweithio gyda'n gilydd i gomisiynu gwasanaethau ar lefel ranbarthol gael effaith negyddol ar sefydliadau llai mewn ardaloedd. Ni fydd gan sefydliadau llai y gallu i dendro am contractau mwy.

Gall cynnal trefniadau ymgysylltu ar lefel ranbarthol olygu nad yw lleisiau gofalwyr lleol yn cael eu clywed, a'i gwneud yn llai amlwg sut i ymgysylltu.

Gallai unrhyw gomisiynu rhanbarthol arwain at gollu perthnasoedd lleol yn ogystal â'r presenoldeb lleol yn y gymuned.

Gall safoni gwasanaethau hefyd olygu colli arfer da mewn rhai meysydd.

### Camau lliniaru:

Cefnogi rhanddeiliaid a phartneriaid eraill i ffurfio consortia a phartneriaethau fel y gallant gydweithredu'n fwy effeithiol ar lefel ranbarthol. Cefnogi sefydliadau bach i ehangu neu gynyddu capasiti. Cynnal y ffocws y mae'r strategaeth gofalwyr yn ei roi ar y cynnig rhanbarthol gyda chomisiynu lleol.



## Atodiad 1: Offeryn sgrinio

	Oedran	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Priodas neu bartneriaeth sifil	Beichiogrwyd d a mamolaeth	Hil	Crefydd neu gred	Rhyw	Tueddfryd Rhywiol	Y Gymraeg
A yw'r cynnig yn ymwneud â maes lle mae anghydraddoldeb au hysbys?	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi	Ydi
A fydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y grwpiau hyn?	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd	Bydd
Sut byddwch chi'n deall anghenion pobl?	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr	Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru; ymgynghori ad lleol; arolwg BIPBC; Grŵp Cyfeirio Gofalwyr Gogledd Cymru; straeon gofalwyr; astudiaetha u achos gofalwyr; mapio llwybrau gofalwyr
Tystiolaeth o fanteisio mwy neu llai neu â mwy neu lai o fodlonrwydd?	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod	Gweler uchod
A yw'r cynnig yn gwahaniaethu yn erbyn y grwpiau hyn?	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol	Effeithiau cadarnha ol a negyddol

	Oedran	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Priodas neu bartneriaeth sifil	Beichiogrwyd d a mamolaeth	Hil	Crefydd neu gred	Rhyw	Tueddfryd Rhywiol	Y Gymraeg
A oes potensial ar gyfer lleihau anghydraddoldeb au neu wella canlyniadau?	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes